

Comisiwn y Gyfraith

DIWYGIO TROSEDDAU YN ERBYN Y PERSON

Crynodeb

Crynodeb yw'r papur hwn o'r Adroddiad Cwmpasu llawn, Troseddau yn Erbyn y Person (Rhif Com y G 361) sydd ar gael ar ein gwefan (yn Saesneg yn unig) yn <http://www.lawcom.gov.uk/project/offences-against-the-person/>.

PENNOD 1

RHAGARWEINIAD

Y TROSEDDAU SY’N CAEL EU HADOLYGU

- 1.1 Prosiect i ddiwygio'r gyfraith ynglŷn â rhai troseddau sy'n ymwneud â thrais yw hwn. Mae'r prosiect yn mynd i'r afael â'r canlynol:
- (1) y troseddau yn Neddf Troseddau yn Erbyn y Person 1861, sef y rheini sy'n ymwneud â chlwyfo a niwed corfforol difrifol, gwir niwed corfforol, bygythiadau i ladd, annog llofruddio, gwenwyno, achosi niwed drwy ffrwydron a llawer un arall;
 - (2) ymosod a churo; ac
 - (3) ymosod ar gwnstabl wrth iddo gyflawni ei ddyletswydd.
- 1.2 Nid yw'n cynnwys llofruddio, dynladdiad, troseddau rhyw, carcharu'n anghyfreithlon na herwgipio.

Y PROSIECT

- 1.3 Ym mis Tachwedd 2014, cyhoeddwyd papur cwmpasu er mwyn ymgynghori ynghylch diwygio troseddau yn erbyn y person ("y papur cwmpasu"),¹ Roedd y papur yn archwilio'r dirwedd gyfreithiol bresennol ac yn holi a oedd angen diwygio ac, os oedd, pa fath o ddiwygio yr oedd ei angen.
- 1.4 Daeth yr ymgynghori i ben ar 11 Chwefror 2015. Mae ein hadroddiad terfynol Troseddau yn Erbyn y Person (Rhif Com y G 361) a gyhoeddwyd ar 3 Tachwedd 2015, yn cynnwys manylion llawn ein hargymhellion. Crynodeb o'r adroddiad hwnnw yw'r ddogfen hon.

STRWYTHUR Y CRYNODEB HWN

- 1.5 Rhennir y crynodeb hwn yn dair pennod:
- (1) rhagarweiniad;²
 - (2) Pennod 2: y prif droseddau, trafodir troseddau ymosod a churo, ymosod sy'n achosi gwir niwed corfforol a'r ddau drosedd niwed corfforol difrifol;³
 - (3) Pennod 3: troseddau eraill, trafod troseddau ymosod neu achosi niwed i bersonau penodol neu dan amgylchiadau penodol, cymell i lofruddio a bygythiadau i ladd, troseddau peryglu a throseddau amrywiol eraill.⁴

¹ Reform of Offences against the Person: a Scoping Consultation Paper (2014) Law Commission Consultation Paper No 217.

² Tudalen 1.

³ Tudalen 7.

⁴ Tudalen 18.

- 1.6 Ar ôl Pennod 3, rydym yn crynhoi ein hargymhellion, ar ffurf tabl sy'n dangos y troseddau fel y maent ar hyn o bryd a'r troseddau newydd yr ydym yn argymhell eu rhoi yn eu lle.⁵

AMLINELLIAD O'R PRIF ARGYMHELLION AR GYFER DIWYGIO

- 1.7 Dyma argymhellion ein hadroddiad yn gryno:

- (1) Dylai'r prif droseddau anafu ddilyn "egwyddor cyfatebiaeth", lle bydd y niwed y mae'n ofynnol ei fwriadu neu ei ragweld gyfateb i'r niwed a achoswyd. Er enghraifft, ar gyfer trosedd "achosi anaf difrifol yn fyrbwyll", dylai fod yn ofyniad bod y diffynnydd wedi rhagweld risg o anaf difrifol.
- (2) Am ei fod yn ymwneud â chlefydau, dylid addasu Mesur drafft 1998 i ddilyn patrwm y gyfraith bresennol, lle nad oes dim troseddau penodol sy'n ymwneud â throsglwyddo clefydau, ond lle y gall trosglwyddo clefyd yn fyrbwyll ddod o dan droseddau cyffredinol achosi anaf. Os dymunir ystyried unrhyw batrwm arall, dylid gwneud hyn mewn arolwg ehangach sydd wedi'i neilltuo i'r un pwnc hwn.
- (3) Dylid cael trosedd "ymosod dwys", sy'n golygu unrhyw ymosod sydd mewn gwirionedd yn achosi anaf: byddai'r trosedd newydd hwn yn eistedd rhwng trosedd achosi niwed yn fwriadol neu'n fyrbwyll a'r troseddau ymosod. 12 mis ddylai'r ddedfryd hwyaf fod ar gyfer y trosedd hwn sydd yn drosedd ynadol yn unig.
- (4) Ni ddylid cael trosedd cyffredinol ar gyfer peryglu pobl yn fyrbwyll, ond, yn lle'r troseddau peryglu presennol sy'n cynnwys gwenwynau, ffrwydron a rheilffyrdd, dylid cael troseddau tebyg (ond symlach).

- 1.8 Mae'r troseddau presennol, a'r troseddau yr ydym yn eu hargymhell yn eu lle, i gyd wedi'u rhestru mewn tabl ar dudalen 25 y crynodeb hwn.

HANES YMDRECHION I DDIWYGIO TROSEDDAU YN ERBYN Y PERSON

- 1.9 Dros y 35 mlynedd diwethaf, mae cyfres hir o ymdrechion wedi bod i ddiwygio troseddau yn erbyn y person. Dyma rai ohonynt:

- (1) Criminal Law Revision Committee, Fourteenth Report, Offences against the Person, yn 1980;⁶
- (2) Codification of the Criminal Law (adroddiad gyda chod drafft a gyflwynwyd i Gomisiwn y Gyfraith gan grŵp o academyddion dan gadeiryddiaeth yr Athro Syr John Smith CF), yn 1985;⁷
- (3) Draft Criminal Code with commentary (Adroddiad gan Gomisiwn y Gyfraith), yn 1989;⁸

⁵ Tudalen 25.

⁶ (1980) Cmnd 7844. Seiliwyd hwn ar Bapur Gweithio a gyhoeddwyd yn 1976.

⁷ (1985) Law Com No 143.

- (4) Legislating the Criminal Code: Offences against the Person and General Principles (Papur ymgynghori gan Gomisiwn y Gyfraith), yn 1992;⁹
- (5) Legislating the Criminal Code: Offences against the Person and General Principles (Adroddiad gan Gomisiwn y Gyfraith), yn 1993;¹⁰ a
- (6) Papur Ymgynghori'r Swyddfa Gartref gyda'r Mesur drafft, dan y teitl *Violence: Reforming the Offences against the Person Act 1861*, yn 1998.¹¹

1.10 Y cynnig a drafodwyd yn y papur cwmpasu oedd y dylid cael statud modern yn lle Deddf Troseddau yn Erbyn y Person 1961, a hwnnw wedi'i seilio ar Fesur drafft 1998 y Swyddfa Gartref gydag ychydig o newidiadau. Ar ôl ystyried yr ymateb i'n hymgynghori, yr un yw casgliad ein hadroddiad terfynol

GWENDIDAU'R GYFRAITH BRESENNOL

1.11 Dyma ddiffygion y gyfraith bresennol, fel y mae yn Neddf Troseddau yn Erbyn y Person 1861:

- (1) Mae gormod o droseddau sy'n ymwneud â'r un pwnc ac sydd wedi'u diffinio'n gul, lle y byddai cael llai o droseddau a throseddau symlach yn ddigon; er enghraifft, mae tri throsedd yn ymwneud â gwenwyno, pedwar yn ymwneud â ffrwydrion a thri'n ymwneud â rheilffyrdd.
- (2) Mewn ambell achos, mae'r un adran yn cynnwys rhestr o sefyllfaoedd manwl sy'n wahanol i'w gilydd ond yn gysylltiedig â'i gilydd, sy'n gwneud i rywun amau a yw'r adran yn creu un trosedd ynteu sawl un. Mae un enghraifft o hyn yn adran 18, sydd, gellid dadlau, yn creu pedwar trosedd, a'r rheini'n cynnwys deg o wahanol sefyllfaoedd ffeithiol.
- (3) Nid yw trefn y troseddau na'r ffordd y maent yn cael eu graddio yn ôl eu difrifoldeb yn glir. Hyd yn oed pan fydd hi'n glir pa droseddau yw'r rhai mwyaf difrifol, nid yw'r gwahaniaethau bob tro'n cael eu hadlewyrchu yn y pwerau dedfrydu. Er enghraifft, mae'r ddedfryd hwyaf ar gyfer trosedd o dan adran 20, sy'n cynnwys "niwed corfforol difrifol", yr un fath (5 mlynedd) a'r ddedfryd yn adran 47, nad yw ond yn cynnwys "gwir niwed corfforol".
- (4) Mae gormod o droseddau nad ydynt ond yn digwydd yn achlysurol iawn, ac mae'n ymddangos nad oes angen rhai ohonynt ragor: un enghraifft yw trosedd ymosod ar ynad neu berson arall wrth iddo/iddi gyflawni ei (d)dyletswydd yn gwarchod llongdrylliad.

⁸ (1989) Law Com No 177 (2 vols).

⁹ (1992) Law Commission Consultation Paper No 122.

¹⁰ (1993) Law Com No 218.

¹¹ Gweler y rhain yn Atodiad C o'r Adroddiad ac maent ar gael ar lein yn http://www.lawcom.gov.uk/wp-content/uploads/2015/11/51950-LC-HC555_Web.pdf.

- (5) Mae'r ddeddf yn defnyddio geirfa hynafol, megis "grievous" (i ddisgrifio anaf difrifol) a "detainer" (i olygu carcharu).
- (6) Mae'n defnyddio geiriau sydd heb ystyr clir, er enghraifft "maliciously". Mae hyn wedi golygu bod gofyn i'r llysoedd eu dehongli'n helaeth ac weithiau mae'r geiriau hyn yn ddiangen.
- (7) Mae'n cyfeirio at droseddau sy'n defnyddio dyfeisiau a chemegolion penodol megis lawdanwm, ac felly wrth i amser fynd heibio, gall fod yn amherthnasol os nad yw'r pethau hyn yn cael eu defnyddio rhagor neu os dyfeisir pethau newydd.
- (8) Mae'n cyfeirio at gysyniadau cyfreithiol sydd wedi darfod, megis ffeloniaeth, camymddwyn a phenyd-wasanaeth y mae'n rhaid eu hailddenghonli drwy ddarpariaethau mewn statudau eraill.
- (9) Nid yw'n nodi'r cosbau ar gyfer troseddau difrifol, megis y rheini dan adrannau 47 ac 20: rhaid diddwytho'r rhain drwy gyfrwng cadwyn o ddarpariaethau sy'n cydblethu â'i gilydd mewn statudau eraill.

PRIF THEMÂU'R DIWYGIO

- 1.12 Roedd cytundeb cyffredinol ymhlith y rhai yr ymgynghorwyd â hwy y dylid disodli Deddf 1861 â statud modern, ar linellau tebyg i Fesur Troseddau drafft 1998 y Swyddfa Gartref, ac un na fyddai'n cynnwys y diffygion a restrwyd yn y paragraff uchod.
- 1.13 Bu'n rhaid inni ystyried y cwestiynau a ganlyn hefyd, cwestiynau a arweiniodd at amrywiaeth ehangach o lawer o safbwyntiau ymhlith y sawl yr ymgynghorwyd â hwy.
 - (1) Gyda'r rhan fwyaf o droseddau sy'n ymwneud â thrais, mae gofyn cael bwriad o achosi niwed, neu fyrbwylltra ynghylch y risg o niwed.¹² Serch hynny, mewn sawl un o'r troseddau o dan y Ddeddf, mae'r niwed y mae'n rhaid ei fwriadu neu ei ragweld yn wahanol i'r niwed a wneir mewn gwirionedd. Er enghraifft, yn nhrosedd adran 20, rhaid i'r diffynnydd achosi "niwed corfforol difrifol" neu glwyfo, ond nid oes ond yn rhaid iddo ragweld niwed corfforol o ryw fath, pa mor fân bynnag y bydd y niwed hwnnw. Un cwestiwn a godwyd yn y papur cwmpasu oedd a ddylid sicrhau cyfatebiaeth fwy clos rhwng y niwed a ragwelid a'r niwed a wneid, er mwyn sicrhau bod unrhyw niwed a wneir mewn gwirionedd yn adlewyrchu bai'r diffynnydd.
 - (2) Mae cwestiynau anodd yn codi ynghylch trosglwyddo clefydau, yn enwedig ynghylch byrbwylltra wrth drosglwyddo HIV neu heintiau eraill y gellir eu trosglwyddo yn ystod cyfathrach rywiol gydsyniol. Ystyriwyd y posibiladau hyn:

¹² Ystyr "byrbwylltra" yw bod risg o niwed wedi'i rhagweld, ac nad oedd modd cyfiawnhau cymryd y risg honno.

- (a) y dylai trosglwyddo clefyd ddod o fewn y troseddau cyffredinol sy'n ymwneud ag achosi anaf neu niwed, fel y mae yn y gyfraith bresennol;
 - (b) y dylid cael troseddau penodol ar gyfer trosglwyddo clefydau'n gyffredinol, neu drosglwyddo clefydau penodol, fel sy'n digwydd mewn rhai gwledydd eraill; neu
 - (c) na ddylai trosglwyddo clefyd fyth fod yn weithred droseddol heblaw bod hynny'n fwriadol, fel sydd ym Mesur drafft 1998 y Swyddfa Gartref.¹³
- (3) Os cyhuddir rhywun o gyflawni trosedd ymosod sy'n achosi gwir niwed corfforol, o dan adran 47 o'r Ddeddf, gellir ei roi ar brawf naill ai yn Llys y Goron neu mewn llys ynadon. O safbwynt ymarferol, bydd achosion lle bydd yr anafiadau llai difrifol, a lle y disgwylir dedfryd o 6 mis neu lai, fel rheol yn cael eu hystyried yn ymosod cyffredin yn hytrach nag yn droseddau o dan adran 47. Yn y papur cwmpasu ac yn yr adroddiad terfynol, rydym yn ystyried ffyrdd o greu trosedd arbennig ar gyfer yr achosion hyn, fel y byddent yn aros yn y llys ynadon ond yn cael eu labelu'n gywir o ran y niwed a achoswyd.
- (4) Yn y papur cwmpasu, crybwyllwyd y gellid creu trosedd creu risg o anaf i rywun yn fyrbwyll: byddai hyn yn berthnasol, ni waeth a ddigwyddodd yr anaf mewn gwirionedd neu beidio.
- (5) Codwyd y posibilrwydd hefyd o gael troseddau penodol ar gyfer trais domestig, sef ffurfiau dwys ar y troseddau trais cyffredinol, a fyddai'n berthnasol pan fyddai'r partïon yn cyd-fyw mewn teulu.

¹³ Yn y Mesur drafft, mae anaf yn eithrio "unrhyw beth sy'n cael ei achosi gan glefyd" ac eithrio pan fydd y trosedd yn achosi anaf difrifol yn fwriadol.

PENNOD 2

Y PRIF DROSEDDAU

TERMINOLEG

2.1 Yn y crynodeb hwn, fel sy'n wir yn nogfennau eraill y prosiect, rydym yn defnyddio'r derminoleg a ganlyn:

- (1) Ystyr "Deddf 1861" yw Deddf Troseddau yn Erbyn y Person 1861, ac ystyr "y Mesur drafft" yw Mesur drafft Troseddau yn Erbyn y Person a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref yn 1998.¹
- (2) D yw'r Diffynnydd, sef y sawl sy'n cael ei roi ar brawf am drosedd. N yw'r sawl y dywedir i'r trosedd gael ei gyflawni yn ei erbyn.
- (3) "Elfennau allanol" trosedd yw'r ffeithiau y mae'n rhaid eu profi i ddangos bod D yn euog o'r trosedd, ac eithrio'r ffeithiau sy'n berthnasol i fai meddyliol D. Mae'r rhain yn ymrannu'n:
 - (a) "elfennau ymddygiad": sef yr hyn y mae'n rhaid i D ei wneud neu fetu â'i wneud;
 - (b) "elfennau canlyniad"; canlyniad ymddygiad D (er enghraifft, mewn llofruddiaeth, bod N yn marw); ac
 - (c) "elfennau'r amgylchiadau"; ffeithiau eraill sy'n effeithio ar a yw D yn euog neu beidio (er enghraifft, os bydd trais rhywiol, nad yw N yn cydsynio).
- (4) Yr "elfen feddyliol" (neu'r "elfen fai") sef y cyflwr meddwl y mae'n rhaid i'r erlyniad ei brofi er mwyn dangos bod D yn gyfrifol am y gweithredoedd. Enghreifftiau o elfennau meddyliol yw bwriad, byrbwylltra, gwybodaeth neu gred (neu ddiffyg hynny).

Y GYFRAITH AR HYN O BRYD

2.2 Dyma'r prif droseddau sy'n ymwneud â thrais ar hyn o bryd.

- (1) Ymosod. Trosedd cyfraith gyffredin yw hwn. Rhaid i D beri i N deimlo'i fod wedi cyflawni trais anghyfreithlon yn ei erbyn yn y fan a'r lle (sy'n golygu unrhyw gyffwrdd nas dymunir ac nad oes modd ei gyfiawnhau). Rhaid i D naill ai fwriadu gwneud hyn neu fod yn fyrbwyll ynghylch a yw N yn gweld hyn yn drais o'r fath neu beidio.

Dedfryd hwyaf: 6 mis.

- (2) Curo. Trosedd cyfraith gyffredin yw hwn hefyd: mae cysylltiad clos rhyngddo ac ymosod, ac fe gyfeirir at y ddau gyda'i gilydd yn aml fel

¹ Gweler Atodiad A o'r adroddiad ac ar gael ar lein yn http://www.lawcom.gov.uk/wp-content/uploads/2015/11/51950-LC-HC555_Web.pdf.

“ymosod cyffredin”.² Mae’n cynnwys unrhyw gyffwrdd nas dymunir ac nad oes modd ei gyfiawnhau. Gall hwn naill ai fod yn gysylltiad corfforol rhwng D ac N neu fod D yn achosi i ryw wrthrych ddod i gysylltiad ag N (er enghraifft drwy ei daflu, neu osod magl). Eto, rhaid i D naill ai fwriadu neu fod yn fyrbwyll ynghylch y cysylltiad hwnnw.

Y ddedfryd hwyaf: 6 mis.

- (3) Ymosod sy’n achosi gwir niwed corfforol. Trosedd o dan adran 47 o Ddeddf 1861 yw hwn, ac mae’n gallu cynnwys naill ai ymosod neu guro, ar yr amod bod rhyw niwed corfforol neu seiciatrig yn cael ei achosi i N. Nid oes angen i D fwriadu na bod yn fyrbwyll ynghylch y risg honno o niwed.

Y ddedfryd hwyaf: 5 mlynedd.

- (4) Clwyfo maleisus neu achosi niwed corfforol difrifol, o dan adran 20 o Ddeddf 1861.
- (a) Rhaid i D naill ai glwyfo N neu achosi niwed corfforol neu seiciatrig difrifol i N.
- (b) Rhaid i D fod â bwriad o achosi rhyw niwed, neu fod yn fyrbwyll ynghylch y risg o ryw niwed. At y diben hwn, mae ymwybyddiaeth o risg o unrhyw lefel o niwed corfforol yn ddigon: Nid oes angen i D fwriadu na rhagweld anaf difrifol megis yr un sydd wedi digwydd.

Y ddedfryd hwyaf: 5 mlynedd.

- (5) Clwyfo neu achosi niwed corfforol difrifol yn fwriadol, o dan adran 18 o Ddeddf 1861.
- (a) Rhaid i D naill ai glwyfo N neu achosi niwed corfforol neu seiciatrig difrifol i N.
- (b) Rhaid i D fod a bwriad o achosi niwed corfforol neu seiciatrig difrifol.³

Dedfryd hwyaf: oes.

Y MOSOD A CHURO

2.3 Mae’r Mesur drafft yn cynnig un trosedd, sy’n cynnwys y ddau fath o ymddygiad (achosi ymdeimlad o drais a gwir drais). Ar ôl meddwl, ac ar sail barn y rhan fwyaf o’r ymgylchoreion, rydym yn argymhell y dylid parhau i gadw dau drosedd ar wahân.

² Mae cyfeiriadau at “ymosod” mewn statud fel rheol yn golygu’r ddau drosedd; ond mae’r ffaith bod curo ar ei ben ei hun hefyd weithiau’n cael ei alw’n “ymosod drwy guro” yn ddryslyd.

³ Mae mathau eraill o’r trosedd hwn, lle bydd D yn achosi’r un niwed wrth geisio gwrthsefyll arest neu ddianc rhag arest neu gaethiwo. Byddwn yn trafod y rhain ym mhara 3.2 isod.

- 2.4 Mae'r enwau "ymosod" a "churo" yn gamarweiniol. Rydym yn argymhell y dylid galw achosi trais yn "ymosod corfforol" ac y dylid galw'r achosi i N feddwl bod trais ar fin digwydd yn "fygwth ymosod".
- 2.5 Rydym yn argymhell hefyd y dylid cael trosedd "ymosod dwys", sy'n cynnwys unrhyw ymosod corfforol neu fygwth ymosod sy'n achosi anaf. Byddwn yn trafod hyn yn fanwl ar ddiwedd y bennod hon, ar ôl trafod y prif droseddau anafu.

Y TROSEDDAU ANAFU

Y Mesur drafft

- 2.6 Mae'r Mesur drafft yn cynnwys tri throsedd newydd sy'n ymwneud ag achosi anaf, fel a ganlyn:

- (1) Achosi anaf difrifol yn fwriadol (cymal 1); y ddedfryd hwyaf: oes.
- (2) Achosi anaf difrifol yn fyrbwyll (cymal 2); y ddedfryd hwyaf: 7 mlynedd.
- (3) Achosi anaf difrifol yn fwriadol neu'n fyrbwyll (cymal 3); y ddedfryd hwyaf: 5 mlynedd.

- 2.7 Mae hyn yn wahanol i'r gyfraith bresennol mewn tair ffordd:

- (1) Nid oes cyfeiriad penodol at glwyfo. Gall clwyf naill ai fod ynteu'n anaf difrifol neu'n anaf, a dibynnu ar y ffeithiau.
- (2) Wrth gyflawni trosedd o "achosi anaf difrifol yn fyrbwyll", rhaid i D ragweld risg o anaf *difrifol* (yn wahanol i'r trosedd adran 20 presennol, lle mae'n ddigon rhagweld unrhyw anaf). Trafodir hyn isod o dan y penawd "Cyfatebiaeth".⁴
- (3) Yng nghyswllt trosedd o dan gymal 3, yn wahanol i'r trosedd presennol o dan adran 47, nid oes gofyn i ymosod neu guro ddigwydd; mae unrhyw ffordd o achosi anaf yn ddigonol.

- 2.8 Trafodir manylion y troseddau hyn yn llawn ym Mhennod 4 o'r adroddiad ac fe drafodir mater arall, sy'n ymwneud â throsglwyddo clefydau, ym Mhennod 6. Yma, cyflwynir y materion dan sylw'n gryno, o dan y penawdau a ganlyn.

- (1) Elfennau allanol:
 - (a) Anweithiau;
 - (b) Diffinio anaf, yn benodol a ddylai gynnwys clefydau neu beidio.
- (2) Elfennau meddyliol:
 - (a) A ddylid diffinio bwriad a byrbwylltra;
 - (b) Cyfatebiaeth ag egwyddorion atebolrwydd eraill.

⁴ Para 2.27 a'r rhai dilynol, isod.

Elfennau allanol

Anweithiau

- 2.9 Yn ôl y Mesur drafft, gall y trosedd yng nghymal 1 (achosi anaf difrifol yn fwriadol) gynnwys naill ai weithred neu anwaith; rhaid i'r ddau drosedd anafu arall gynnwys gweithred. Mae hefyd yn dweud y caiff yr holl droseddau hyn gynnwys achos lle bydd D yn methu'n feius ag atal canlyniadau ei weithred/ei gweithred flaenorol (neu anwaith yn achos cymal 1).
- 2.10 Yn ein hadroddiad, ein barn yw nad oes rheswm dros wahaniaethu rhwng trosedd cymal 1 a'r lleill. Ar gyfer y rhain i gyd, mae'n ddigon sôn am "ymddygiad" sy'n achosi anaf; ac mae'r rheol am fethu ag atal canlyniadau'n un o reolau cyffredin y gyfraith, nad oes angen ei hailddatgan mewn statud ar droseddau trais. Serch hynny, rydym yn esbonio mai barn amodol yw hon yn unig ac mai penderfyniad i'r sawl sy'n drafftio'r statud newydd fydd hyn.

Diffinio anaf

- 2.11 Mae'r prif droseddau yn y Mesur drafft yn ymwneud ag "achosi anaf". Yn ôl y diffiniad, mae anaf yn cynnwys anaf corfforol ac anaf meddyliol. Ar wahân i ddibenion cymal 1 (achosi anaf difrifol yn fwriadol), mae anaf corfforol a meddyliol yn eithrio "unrhyw beth a achosir gan glefyd". Mae hyn yn codi materion ynghylch anaf meddyliol ac ynghylch clefydau.

ANAF MEDDYLIOL

- 2.12 Dan y gyfraith fel y mae, mae "niwed corfforol difrifol" a "gwir niwed difrifol" yn cynnwys cyflyrau seiciatrig cydnabyddedig ond nid y cyflyrau seicolegol eraill megis trallod neu alar. Gallai'r diffiniad yn y Mesur drafft, gan gynnwys pob "anaf meddyliol" sydd heb ei achosi gan glefyd, fod yn ehangach o lawer.
- 2.13 Yn ein hadroddiad, rydym yn argymhell cadw'r diffiniad fel y mae yn y gyfraith bresennol, oherwydd ei bod yn anodd creu terfyn sy'n diffinio mathau ehangach o niwed seicolegol. Byddai hyn yn berthnasol at ddibenion yr holl droseddau yn y statud newydd. Rydym yn gweld hyn yn arbennig o bwysig yng nghyswllt y trosedd yng nghymal 3 (achosi anaf yn fwriadol neu'n fyrbwyll) oherwydd, yn wahanol i'r trosedd o dan adran 47 y mae'n ei ddisodli, nid oes gofyn cael unrhyw fath o ymosod. Byddai trosedd sy'n cynnwys niwed seicolegol yn gyffredinol, a achoswyd drwy ba ddull bynnag, yn rhy eang ac yn mynd ymhell y tu hwnt i barth troseddau sy'n cynnwys trais.

CLEFYDAU

- 2.14 At ddibenion y troseddau o dan gymalau 2 (achosi anaf difrifol yn fyrbwyll) a 3 (achosi anaf yn fwriadol neu'n fyrbwyll),⁵ mae diffiniad y Mesur drafft o anaf yn eithrio unrhyw beth sy'n cael ei achosi gan glefyd. Pwrpas yr eithriad hwn oedd adlewyrchu'r gyfraith fel yr oedd, fe gredid, yn 1998, pan gyhoeddwyd y Mesur drafft.

⁵ Ac ar gyfer pob trosedd arall ac eithrio hwnnw o dan gymal 1.

- (1) Mae'r trosedd o dan gymal 2 yn disodli'r trosedd o dan adran 20 o Ddeddf 1861 (achosi niwed corfforol difrifol yn faleisus). Deellid wedyn bod trosedd adran 20 yn gofyn am rywbeth o natur ymosod, ac felly nad oedd yn cynnwys trosglwyddo haint drwy gyfathrach rywiol gydsyniol.⁶
 - (2) Mae'r trosedd o dan gymal 3 yn disodli'r trosedd o dan adran 47 o Ddeddf 1861 (ymosod gan achosi gwir niwed corfforol). Mae trosedd adran 47 yn amlwg yn eithrio'r rhan fwyaf o achosion lle bydd haint yn cael ei throsglwyddo, oherwydd anaml y bydd y rhain yn cynnwys ymosod.⁷
- 2.15 Y gyfraith o hyd yw nad yw trosglwyddo haint fel rheol yn dod o dan drosedd adran 47.⁸ Serch hynny, mae'r ffordd y dehonglir adran 20 wedi newid ac nid oes gofyn cael gweithred o natur ymosod rhagor. Mewn cyfres o achosion yn dechrau gyda *Dica*,⁹ mae'r llysoedd wedi penderfynu bod trosglwyddo'n fyrbwyll HIV neu heintiau y gellir eu trosglwyddo drwy gyfathrach rywiol gydsyniol, mewn egwyddor yn drosedd adran 20. Y rhesymu oedd bod N wedi cydsynio i ryw (felly nad yw D yn euog o drais) ond nad oedd wedi cydsynio i'r risg o gael ei heintio.
- 2.16 Mae barn gref, yn enwedig ymhlith y proffesiwn meddygol a grwpiau sy'n ymwneud ag HIV a heintiau y gellir eu trosglwyddo drwy gyfathrach rywiol, na ddylai trosglwyddo'r clefydau hyn fyth fod yn drosedd onid yw'n cael ei wneud yn fwriadol. Ar sail y farn hon, byddai'n well dychwelyd at y gyfraith fel yr oedd yn 1998 a defnyddio'r Mesur drafft fel y mae. Dyma'r dadleuon o blaid hyn.
- (1) mae creu trosedd trosglwyddo'n fyrbwyll yn annog pobl i ddewis peidio â chael prawf a fyddai'n eu gwneud yn ymwybodol o'r risg ac felly'n agored i ymddwyn yn fyrbwyll;
 - (2) mae'n golygu bod pobl a gweithwyr meddygol proffesiynol yn gyndyn o fod yn agored â'i gilydd, oherwydd efallai y bydd yn rhaid iddynt roi tystiolaeth yn erbyn eu cleifion;
 - (3) mae'n annog pobl i feddwl bod datgelu statws HIV bob tro'n ddyletswydd ac felly, os na fydd darpar bartner wedi crybwyll ei statws, yna, nad yw wedi'i heintio;
 - (4) oherwydd ei bod mor anodd profi bod haint wedi'i throsglwyddo, mae bodolaeth y trosedd yn arwain at ystod eang ac ymwithiol iawn o archwiliadau sy'n effeithio ar lawer iawn o bobl, mwy o lawer na'r nifer fach y gwelir eu bod yn haeddu cael eu herlyn; a

⁶ *Clarence* (1888) 22 QBD 23.

⁷ Un eithriad fyddai achos lle byddai D yn poeri'n fwriadol ar N a bod haint yn cael ei throsglwyddo yn y poer. Enghraifft arall fyddai ymosod gyda chwistrell sydd wedi'i heintio, er y gallai hyn hefyd fod yn glwyfo ac felly y gallai ddod o dan a 20.

⁸ Yn *Golding* [2014] EWCA Crim 889 penderfynwyd nad oedd trosglwyddo herpes gwenerol drwy gyfathrach rywiol gydsyniol yn drosedd a 47, er y gallai fod yn drosedd a 20.

⁹ [2004] EWCA Crim 1103, [2004] QB 1257. Achosion diweddarach: *Konzani* [2005] EWCA Crim 706, [2005] 2 Cr App R 14 a *B* [2006] EWCA Crim 2945, [2007] 1 WLR 1567.

- (5) mae awyrgylch o ofn (a hynny'n aml yn afresymol) yng nghyswllt holl bwnc HIV/AIDS, ac mae stigma annymunol o hyd yn erbyn pobl sydd wedi'u heintio ag HIV; mae bodolaeth trosedd yn atgyfnerthu'r naill ffenomen a'r llall.
- 2.17 Serch hynny, mae'r cynnig hwn yn codi ambell broblem.
- (1) Mae'r drafodaeth ynghylch y mater hwn wedi ymwneud yn llwyr bron iawn â throsglwyddo clefyd drwy gyfathrach rywiol gydsyniol, a throsglwyddo HIV yn benodol. (Hefyd, mae'r rhan fwyaf o'r dystiolaeth ynglŷn ag effeithiau niweidiol troseddoli'n dod o'r gwledydd lle mae troseddau penodol yn berthnasol i HIV a heintiau a drosglwyddir drwy ryw, ac efallai nad yw'n berthnasol defnyddio troseddau cyffredinol achosi anaf). Efallai na fydd yr un rhesymu'n berthnasol i glefydau eraill a dulliau eraill o'u trosglwyddo, ond mae'r Mesur drafft yn eithrio clefydau'n llwyr.
- (2) Yn benodol, o dan y Mesur drafft, ni fyddai'n drosedd trosglwyddo HIV, haint a drosglwyddir drwy ryw, nac unrhyw glefyd arall, hyd yn oed yn ystod trais rhywiol neu ymosod. Yn y cyswllt hwn, nid yw'r Mesur drafft yn cynrychioli'r gyfraith fel yr oedd yn 1998.
- (3) Os yw D yn ymwybodol bod risg o drosglwyddo, ac nad yw N yn ymwybodol o hynny, mae'n ymddangos yn rhesymol y dylai'r gyfran fwyaf o'r cyfrifoldeb am osgoi'r risg fod ar D yn hytrach nag ar N.
- 2.18 Am y rhesymau hyn, ar sail y dystiolaeth sydd gennym, nid ydym yn teimlo bod cyfiawnhad dros argymell newid i'r safbwynt a arddelir yn y gyfraith bresennol, lle mae trosglwyddo clefyd yn fyrbwyll mewn egwyddor wedi'i gynnwys o fewn trosedd achosi niwed. Os penderfynir bod angen newid, dylid cynnal adolygiad ehangach sy'n cymharu'r sefyllfa mewn gwahanol wledydd ac yn ystyried yn llawn sut mae clefydau'n cael eu trosglwyddo drwy ddulliau ar wahân i drwy ryw. Credwn y byddai adolygiad o'r fath yn fuddiol; serch hynny, ni ddylid gohirio diwygio troseddau yn erbyn y person oherwydd hyn.
- 2.19 Am resymau tebyg, nid ydym yn argymell creu troseddau penodol sy'n ymwneud â throsglwyddo clefydau, nac yng nghyswllt clefydau'n gyffredinol nac yng nghyswllt HIV a chlefydau a drosglwyddir drwy ryw yn benodol: byddai hyn hefyd yn gofyn am adolygiad ehangach o'r holl dystiolaeth sydd ar gael. Nid ydym ychwaith yn argymell creu trosedd ar gyfer rhoi person mewn perygl o ddal clefyd, na throedd o fethu â datgelu haint i bartner rhywiol.
- 2.20 Felly, rydym yn argymell na ddylai'r diffiniad o anaf yn y statud newydd gynnwys yr eithriad ar gyfer "unrhyw beth achosir gan glefyd".
- 2.21 Mae hyn yn golygu y gallai trosglwyddo clefyd mewn egwyddor ddod o dan drosedd cymal 3 (achosi anaf yn fwriadol neu fyrbwyll), ac ni fyddai'r atebolrwydd wedi'i gyfyngu rhagor i achosion lle mae'r clefyd yn "anaf difrifol".¹⁰ Dywedodd rhai o'r bobl yr ymgynghorwyd â hwy eu bod yn poeni ynghylch a allai hyn

droseddoli pobl sy'n heintio pobl eraill drwy ddod i'r gwaith gydag annwyd cyffredin. Yn yr adroddiad, rydym yn trafod gwahanol atebion posibl ac yn casglu na fydd hyn yn broblem mewn gwirionedd, oherwydd y bydd y gofyniad ynghylch byrbwylltra'n eithrio achosion lle'r oedd y risg yn un resymol. Felly, ni fydd y trosedd yn cynnwys canlyniadau cysylltiadau y gellid eu disgwyl wrth i bobl ymwneud â'i gilydd yn normal.

Elfennau meddyliol

Diffinio bwriad a byrbwylltra

- 2.22 Mae'r rhan fwyaf o'r troseddau yn y Mesur drafft yn cynnwys naill ai fwriad neu fyrbwylltra wrth achosi rhyw ganlyniad.
- 2.23 Mae i fwriad ystyr sydd wedi'i sefydlu yn y gyfraith. Mae rhywun yn bwriadu canlyniad os yw'n fwriad ganddo/ganddi i hynny ddigwydd. At hynny, dylai rheithgor, mewn achos priodol, gael ei gyfarwyddo i ganfod bod D wedi bwriadu canlyniad os yw'n siŵr bod D wedi sylweddoli bod y canlyniad hwnnw fwy neu lai'n sicr (oni fyddai ymyriad eithriadol) petai D yn gwneud yr hyn yr oedd am ei wneud.¹¹ Gelwir y math olaf o fwriad yn "sgil-fwriad".
- 2.24 Y diffiniad awdurdodedig o fyrbwylltra yw:

A person acts recklessly ... with respect to — (i) a circumstance when he is aware of a risk that it exists or will exist; (ii) a result when he is aware of a risk that it will occur; and it is, in the circumstances known to him, unreasonable to take the risk.¹²

Mae'r Mesur drafft yn mireinio hyn ac yn cyfeirio at "the circumstances as he knows or believes them to be", sydd, fe greddwn, yn ddatganiaid cywir ynghylch y gyfraith bresennol.

- 2.25 Mae'r Mesur drafft yn cynnwys diffiniad o fwriad a byrbwylltra sy'n adlewyrchu'r safbwynt a ddisgrifiwyd uchod.
- 2.26 Ar ôl ymgynghori, yn ein hadroddiad, rydym yn casglu nad oes angen diffiniadau o'r fath mewn statud newydd ar droseddau sy'n ymwneud â thrais. Mae'n well gadael i'r termau hyn gael eu deall yn unol â'r gyfraith gyffredin, yn hytrach na benodol, byddai diffinio sgil-fwriad yn statudol yn achosi dryswch oherwydd fe allai awgrymu bod yn rhaid rhoi cyfarwyddyd i reithgorau amdano ym mhob achos. Ar hyn o bryd, anaml y bydd angen y cyfarwyddyd hwn pan fydd treial ar

¹⁰ Y rheswm dros hyn yw nad yw cymal 3, yn wahanol i'r adran 47 bresennol, yn ei gwneud yn ofynnol i'r niwed gael ei achosi gan ymosod.

¹¹ *Woollin* [1999] 1 AC 82, [1998] 4 All ER 103. Mae'r geiriad a ddefnyddir yma wedi'i addasu o'n hadroddiad *Manslaughter and Infanticide* (2006) Law Com No 304 para 3.14. Yr enghraifft safonol yw rhywun sy'n plannu bom ar awyren gan fwriadu hawlio ar yr yswiriant: nid yw'n gwneud hyn er mwyn lladd y teithwyr ond mae'n gwybod bod y canlyniad hwnnw fwy neu lai'n anochel.

¹² *G* [2003] UKHL 50, [2004] 1 AC 1034, per Lord Bingham of Cornhill at [41].

gyfer troseddau trais a neb wedi marw, oherwydd ar lefel ymarferol, mewn achosion llofruddio y bydd hyn yn codi gan amlaf a hyd yn oed wedyn, mae'n beth prin.¹³

Cyfatebiaeth

- 2.27 Mae'r troseddau yn y Mesur drafft yn cydymffurfio â'r hyn y mae academyddion yn ei galw'n "egwyddor cyfatebiaeth". Mae hynny'n golygu bod y canlyniadau y mae'n rhaid i D eu bwriadu neu eu rhagweld gyfateb â'r canlyniadau sy'n digwydd mewn gwirionedd. Mewn geiriau eraill, ni ellir dal D yn atebol am fath penodol o niwed na lefel benodol o niwed onid yw naill ai wedi bwriadu hynny neu o leiaf yn gwybod bod risg o hynny.
- 2.28 Nid dyna'r unig reol atebolrwydd mewn cyfraith droseddol. Mae llawer o droseddau, megis ymosod a difrod troseddol, mewn gwirionedd yn cydymffurfio â'r egwyddor cyfatebiaeth. Ond gwelir patrymau eraill; er enghraifft:
- (1) Mewn achos llofruddiaeth, rhaid i D fod yn gyfrifol am farwolaeth N, ond nid oes ond angen iddo fod wedi bwriadu achosi marwolaeth neu niwed corfforol difrifol. Gelwir hyn yn "atebolrwydd deongliadol".
 - (2) Mewn ymosodiad gyda'r bwriad o ysbeilio, rhaid bod gan D fwriad o ysbeilio, ond nid oes angen iddo gyflawni'r ysbeiliad mewn gwirionedd. Gelwir troseddau o'r math hwn yn droseddau â "fwriad dirgel".
 - (3) Gyda llawer o droseddau (er enghraifft troseddau traffig megis gyrru drwy olau coch) nid oes gofyn cael unrhyw fwriad neu wybodaeth o gwbl am un neu fwy o elfennau hanfodol y trosedd. Gelwir hyn yn "atebolrwydd caeth".
- 2.29 Yn ein hadroddiad drafft, rydym yn dadlau, o blith y rheolau posibl hyn, mai'r egwyddor cyfatebiaeth yw'r decaf, gan ei bod yn sicrhau bod y niwed sydd wedi'i achosi mewn gwirionedd yn fai ar D mewn gwirionedd, ac mai dyma'r safbwynt y dylid glynu wrtho oni fydd rheswm da dros fynd yn groes i hynny. Roedd y rhan fwyaf o'r sawl yr ymgynghorwyd â hwy'n cytuno â hyn, er bod rhai'n amddiffyn yr atebolrwydd deongliadol mewn ambell achos.
- 2.30 Dylid dweud hefyd, nad yw tynhau'r amodau ar gyfer y trosedd cymal 2 fel hyn yn gwanhau'r warchodaeth a roddir dan y gyfraith droseddol.
- (1) Ar hyn o bryd, os bydd D yn achosi anaf difrifol, ond nad yw ond yn rhagweld risg o anaf llai, bydd ef neu hi'n euog o'r trosedd o dan adran 20, a'r ddedfryd hwyaf fydd 5 mlynedd.
 - (2) O dan y mesur drafft, bydd D yn euog o'r trosedd o dan gymal 3, a'r ddedfryd hwyaf ar gyfer hwnnw hefyd yw 5 mlynedd.

Effaith y Mesur drafft yn y pen draw mewn gwirionedd yw gwneud y gyfraith yn fwy llym. Os bydd D yn achosi a hefyd yn rhagweld anaf difrifol bydd y ddedfryd hwyaf yn cynyddu o 5 i 7 mlynedd.

¹³ *Woollin*, uchod.

ANAFIADAU LLAI DIFRIFOL

Y gyfraith ac ymarfer ar hyn o bryd

2.31 Mae'r trosedd o dan adran 47 yn cynnwys unrhyw ymosodiad sy'n cael yr effaith o achosi niwed corfforol, pa mor fach bynnag fydd yr effaith honno. Mae'n bosibl gwrando'r achos yn Llys y Goron neu mewn llys ynadon.

(1) Yn Llys y Goron, y ddedfryd hwyaf yw carchar am 5 mlynedd.

(2) Mewn llys ynadon, y ddedfryd hwyaf yw 6 mis.

Caiff y ddau lys ohirio unrhyw ddedfryd o garchar a orfodir ganddynt,¹⁴ neu orfodi dirwy neu orchymyn cymunedol.

2.32 Bydd cyfran sylweddol o euogfarnau Llys y Goron am y trosedd hwn yn arwain at ddedfrydau (gan gynnwys dedfrydau gohiriedig) 6 mis o hyd neu lai, dedfrydau nad ydynt yn cynnwys cyfnod yn y carchar neu ddedfrydau rhyddhau. Byddai pob un o'r rhain wedi bod o fewn pŵer y llys ynadon. O'r ffigurau a ddarparwyd gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder, a'r Cyngor Dedfrydu, ein casgliad ni yw bod 34.5% o'r holl ddedfrydau a roddwyd gan Lys y Goron yn 2014 am y trosedd hwn yn dod o fewn y ffiniau hynny.

2.33 O safbwynt ymarferol, cyhuddiad o ymosod neu guro fydd y cyhuddiad ar gyfer y rhan fwyaf o'r achosion ymosod sy'n arwain at anafiadau llai difrifol, lle y disgwylir dedfryd o 6 mis neu lai, yn unol â safon cyhuddo Gwasanaeth Eryl y Goron.¹⁵ Mae hyn yn sicrhau bod yr achosion a gyhuddir fel hyn yn cael eu rhoi ar brawf yn y llys ynadon, sy'n rhatach ac yn gyflymach na threial yn Llys y Goron. Serch hynny, ateb dros dro yw hwn, ac wrth ystyried y ffordd y diffinnir y troseddau, mae'r diffynyddion hyn yn cael eu tangyhuddo.

Cynigion ar gyfer trosedd newydd

2.34 Yn y papur cwmpasu, awgrymwyd y dylid cael trosedd ar gyfer achosi anafiadau llai difrifol, i'w rhoi ar brawf yn y llys ynadon yn unig. Byddai hyn yn cael ei ddefnyddio ar gyfer yr achosion anafu hynny sydd ar hyn o bryd yn dod o dan gyhuddiad o ymosodiad neu guro, gan ddilyn y safon cyhuddo, ac ar gyfer yr achosion llai difrifol ymhlith y rheini sy'n cael eu herlyn ar hyn o bryd o dan adran 47.

(1) Byddai hyn yn rhoi ar waith y farn a fynegwyd yn *Review of Efficiency in Criminal Proceedings*¹⁶ Syr Brian Leveson, sef "some cases simply do not merit the more elaborate, costly and time-consuming procedures of

¹⁴ Mae'n berthnasol i ddedfrydau hyd at 6 mis yn y llys ynadon a hyd at 2 flynedd yn Llys y Goron. Yn y ddau achos, gall y gohiriad bara hyd at 2 flynedd a gellir rhoi gofynion penodol ynghlwm wrtho.

¹⁵ Gwasanaeth Eryl y Goron, *Legal Guidance: Offences Against the Person, Incorporating Charging Standard*. Ar gael yn: https://www.cps.gov.uk/legal/l_to_o/offences_against_the_person/#a07 (cyrchwyd ddiwethaf 19 Hydref 2015).

¹⁶ Ionawr 2015, ar gael yn <https://www.judiciary.gov.uk/publications/review-of-efficiency-in-criminal-proceedings-final-report> (cyrchwyd ddiwethaf 19 Hydref 2015).

the Crown Court". Byddai'n golygu y byddai modd arbed costau sylweddol.

- (2) Ar yr un pryd, byddai'n labelu ymddygiad D yn gywir, ac ni fyddai N yn teimlo nad yw ei (h)anafiadau'n cael eu cydnabod yn ddigonol gan y system gyfreithiol.
- 2.35 Beirniadwyd y cynnig hwn gan rai o'r bobl yr ymgynghorwyd â hwy, a oedd yn teimlo y byddai dioddefwyr yn gresynu o glywed disgrifio'u hanfiadau'n "fân" ac y byddai gwahaniaethu rhwng gormod o lefelau o anafiadau'n creu anawsterau wrth benderfynu pa lefel o anafiadau yr oedd D yn eu bwriadu neu'n eu rhagweld. Rydym ni hefyd yn credu y gallai creu dryswch, oherwydd byddai'r trosedd newydd yn disgyn yn llwyr o fewn cwrpas y trosedd mwy difrifol o dan gymal 3, sef achosi anaf yn fwriadol neu'n fyrbwyll.
- 2.36 Yn ein hadroddiad, rydym yn hytrach yn argymhell trosedd "ymosodiad dwys", sy'n golygu unrhyw ymosod corfforol neu fygwth ymosod sydd wedi achosi anaf mewn gwirionedd, ni waeth a oedd D wedi bwriadu neu wedi rhagweld y risg o hyn. Byddai hyn yn amlwg yn wahanol i'r trosedd cymal 3, lle mae bwriad neu fyrbwylltra'n ofynnol. Mewn gwirionedd, byddai'n debyg i'r trosedd presennol o dan adran 47, ac eithrio mai dim ond yn y llys ynadon y byddai'n cael ei roi ar brawf ac y byddai'n arwain at ddedfryd is o lawer.
- 2.37 Yn ogystal â sicrhau bod yr achosion llai difrifol yn cael eu rhoi ar brawf yn y llys cywir, byddai dwy fantais arall i'r cynllun hwn.
- (1) Ni fyddai'r trosedd newydd yn berthnasol petai N wedi cydsynio i'r risg o niwed. Byddai hyn yn symlach o lawer na'r gyfraith bresennol.¹⁷ (Byddai rheol fwy cyfyngol ynghylch cydsynio'n dal yn berthnasol i'r trosedd cymal 3.)
 - (2) Byddai'n bosibl darparu (ac rydym yn argymhell darparu) mai 12 mis ddylai'r ddedfryd hwyaf fod ar gyfer ymosodiad dwys, ac y byddai'r ddedfryd hwyaf ar gyfer bygwth ymosod ac ymosod corfforol yn aros yn 6 mis.¹⁸
- 2.38 Byddai hyn yn golygu bod modd arbed rhagor eto, oherwydd byddai achosion lle byddai'r ddedfryd ddisgwylidig yn 12 mis neu'n llai hefyd yn cael eu cyhuddo drwy ddefnyddio'r trosedd newydd ac felly'n aros yn y llys ynadon. Dywedwyd, uchod, y byddai 34.5% o'r holl ddedfrydau a roddwyd gan Lys y Goron ar gyfer y trosedd hwn yn 2014 wedi bod o fewn pŵer y llys ynadon. Petai'r llysoedd ynadon wedi gallu gorfodi dedfryd o hyd at 12 mis, byddai'r ffigur hwn yn codi i 73.5%.
- 2.39 Ar hyn o bryd mae gan Lys y Goron bwerau i roi dedfrydau gwahanol: er enghraifft, gellir cael diffynnydd a gyhuddwyd o niwed corfforol difrifol yn euog yn

¹⁷ Ynghylch hyn, gweler para 2.20 a pharagraffau dilynol yr adroddiad am hyn.

¹⁸ Mae pwerau dedfrydu'r ynadon ar fin cael eu cynyddu i 12 mis beth bynnag: Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003, a 154 (heb ei chychwyn eto). Ein cynnig presennol yw mai 12 mis ddylai'r ddedfryd hwyaf fod ar gyfer y trosedd newydd, ni waeth a fydd a 154 wedi'i chychwyn neu beidio.

hytrach o wir niwed corfforol neu ymosod. Byddai angen cynnwys y trosedd newydd, ymosodiad dwys, yn y cynllun hwn.

ARGYMHELLIAD

2.40 Rydym yn argymhell y dylai statud newydd ar droseddau sy'n ymwneud â thrais gynnwys y troseddau anafu ac ymosod sydd yng nghymalau 1 i 4 o'r Mesur drafft gyda'r addasiadau a ganlyn:

- (1) Dylid cael troseddau ar wahân ar gyfer "bygwth ymosod" (ymosod) ac "ymosod corfforol" (curo).
- (2) Dylai'r diffiniad o anaf gynnwys clefydau, ond ni ddylai gynnwys niwed meddyliol ac eithrio cyflyrau seiciatrig cydnabyddedig.
- (3) Dylid cael trosedd "ymosod dwys", i'w roi ar brawf yn y llys ynadon yn unig, gan gynnwys unrhyw fygwth ymosod neu ymosod corfforol sy'n achosi anaf, ni waeth a yw'r anaf wedi'i fwriadu neu wedi'i ragweld. 12 mis ddylai'r ddedfryd hwyaf fod ar gyfer y trosedd hwn.

PENNOD 3

Y TROSEDDAU ERAILL

RHESTR O DROSEDDAU

3.1 Yn y bennod flaenorol, trafodwyd y prif droseddau sy'n cynnwys trais, sef ymosod a churo, ymosod sy'n achosi gwir niwed corfforol a'r ddau drosedd niwed corfforol difrifol. Yn y bennod hon, rydym yn trafod rhagor o droseddau, wedi'u grwpio fel a ganlyn.

- (1) rhai troseddau ymosod neu achosi niwed i bobl benodol neu dan amgylchiadau penodol, yn enwedig:
 - (a) clwyfo neu achosi niwed corfforol difrifol gyda'r bwriad o wrthsefyll neu atal dal neu gaethiwo unrhyw berson yn gyfreithlon;¹
 - (b) ymosod gyda'r bwriad o wrthsefyll neu atal dal neu gaethiwo unrhyw berson yn gyfreithlon;²
 - (c) rhwystro clerigwr neu ymosod arno wrth iddo gyflawni ei ddyletswyddau;³
 - (d) ymosod sy'n arwain at daro neu glwyfo ynad neu berson arall wrth iddo gyflawni ei ddyletswydd i warchod llongddrylliad neu unrhyw long mewn trafferthion;⁴
 - (e) ymosod ar gwnstabl (neu rywun sy'n ei gynorthwyo) wrth iddo gyflawni ei ddyletswydd;⁵
 - (f) troseddau trais sy'n ddwysach oherwydd cymhellion hiliol a chrefyddol;⁶ a
 - (g) trais domestig.⁷
- (2) Cymell i lofruddio⁸ a bygythiadau i ladd.⁹
- (3) Troseddau sy'n achosi perygl, megis y rheini sy'n berthnasol i:

¹ OAPA 1861, a 18

² OAPA 1861, a 38

³ OAPA 1861, a 36

⁴ OAPA 1861, a 37

⁵ Deddf yr Heddlu 1996, a 89(1)

⁶ Deddf Trosedd ac Anrhefn 1998.

⁷ Nid oes trosedd o'r fath ar hyn o bryd: mae a wnelo'r drafodaeth â'r cynnig i greu un neu fwy o'r troseddau hyn. Ceir trosedd "trais domestig", sy'n cynnwys ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorthrymu; para 3.8 isod.

⁸ OAPA 1861, a 4.

⁹ OAPA 1861, a 16.

- (a) wenwyno;¹⁰
- (b) ffrwydron;¹¹ a
- (c) rheilffyrdd¹²

(4) nifer o droseddau amrywiol, sef rhwystro rhywun rhag dianc o longddrylliad,¹³ ceisio tagu er mwyn gyflawni trosedd ditiadwy,¹⁴ peidio â rhoi bwyd i brentisiaid neu weision,¹⁵ gadael plant yn agored i berygl,¹⁶ gosod gynnu sbring, maglau dynion ac ati¹⁷ ac achosi niwed drwy yrru'n wyllt.¹⁸

Y MOSODIADAU PENODOL

- 3.2 Ar hyn o bryd, mae achosi niwed corfforol difrifol neu glwyfo gyda'r bwriad o wrthsefyll neu atal arést neu gaethiwo'n un gangen o'r trosedd o dan adran 18, ac felly dedfryd o garchar am oes yw'r ddedfryd hwyaf. Yn y Mesur drafft, mae hyn yn dod yn drosedd ar wahân, sef achosi anaf difrifol gyda'r bwriad o wrthsefyll, atal neu derfynu arestio neu gaethiwo'n gyfreithlon D neu drydydd person, gan gadw'r ddedfryd hwyaf, carchar am oes. Rydym yn argymhell creu trosedd fel sydd yn y Mesur drafft, ond y dylid ystyried gostwng y ddedfryd hwyaf.
- 3.3 Mae'r Mesur drafft hefyd yn cynnwys trosedd ymosod gyda'r bwriad o wrthsefyll, atal neu derfynu arest neu gaethiwo'n gyfreithlon D neu drydydd person. Dylid cynnwys hwn hefyd yn y statud newydd ar droseddau trais.
- 3.4 Dylid ymdrin ag ymosod ar aelod o'r glerigiaeth drwy un neu fwy o'r troseddau ymosod cyffredinol (ymosod corfforol neu fygythiad o ymosod): nid oes angen trosedd arbennig. Dylid diddymu'r trosedd yn Neddf 1861 yn hytrach na'i ddisodli.
- 3.5 Nid yw trosedd ymosod ar ynad neu rywun arall sy'n gwarchod llongddrylliad byth yn digwydd yn y byd modern, a dylid ei ddiddymu yn hytrach na'i ddisodli.
- 3.6 Dylid cynnwys trosedd ymosod ar gwnstabl wrth iddo gyflawni ei ddyletswydd yn y statud newydd, gan newid dau beth:
- (1) Ar hyn o bryd, nid yw'n ofynnol i D wybod neu amau bod N yn un o swyddogion yr heddlu. Rydym yn argymhell mai dim ond os bydd D naill ai'n gwybod mai un o swyddogion yr heddlu yw N neu ei fod yn fyrbwyll

¹⁰ OAPA, aa 22 i 24.

¹¹ OAPA 1861, aa 28 i 30 a 64,

¹² OAPA, aa 32 i 34.

¹³ OAPA 1861, a 17.

¹⁴ OAPA 1861, a 21.

¹⁵ OAPA 1861, a 26.

¹⁶ OAPA 1861, a 27.

¹⁷ OAPA 1861, a31; fn 322 o Bennod 2 o'r adroddiad cwmpasu.

¹⁸ OAPA 1861, a 35.

ynghylch a yw N yn un o swyddogion yr heddlu neu beidio y dylai hyn fod yn drosedd.

(2) Rhwng 6 a 12 mis ddylai'r ddedfryd hwyaf fod ar gyfer y trosedd hwn.

- 3.7 Mae Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 yn cynnwys troseddau sy'n cynnwys ffurfiau dwysach y troseddau oherwydd cymhelliant hiliol a chrefyddol o dan adrannau 20 (clwyfo maleisus neu achosi niwed corfforol difrifol (a 47 (ymosod sy'n achosi gwir niwed corfforol) ac ymosod cyffredin (sy'n golygu ymosod a churo). Dylid addasu'r rhain i gyfeirio at y troseddau newydd o dan gymalau 2 (achosi anaf difrifol yn fyrbwyll) a 3 (achosi anaf yn fwriadol neu'n fyrbwyll) ac ymosod corfforol a bygwth ymosod. Deng mlynedd ddylai'r ddedfryd hwyaf fod ar gyfer y ffurf ddwys ar drosedd cymal 2 gyda chymhelliant hiliol neu grefyddol.¹⁹
- 3.8 Nid ydym yn argymhell troseddau trais domestig newydd. Ym marn y rhan fwyaf o'r bobl yr ymgynghorwyd â hwy, yr un yw'r prif gamwedd wrth gyflawni trais yn erbyn aelodau o'r teulu â'r camwedd mewn troseddau anafu neu ymosod cyffredinol, ac fe ddylid ymdrin â hwy drwy ddefnyddio'r troseddau hynny. Un rheswm arall dros farnu hyn yw bod trosedd newydd cam-drin domestig ar gael, sy'n cynnwys "ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorthrymu": nid yw hyn wedi'i gyfyngu i drais, ac nid yw'n cynnwys pob math o ymddygiad treisgar.²⁰ Rydym yn cytuno â'r farn a fynegwyd gan nifer yr ymgynghorwyd â hwy y byddai cael y trosedd hwn a throsedd trais domestig yn creu gorgyffwrdd dryslyd.

CYMELL I LOFRUDDIO A BYGYTHIADAU I LADD

Cymell i lofruddio

- 3.9 Mae Deddf 1861 yn cynnwys trosedd cymell neu berswadio rhywun arall i gyflawni llofruddiaeth; mae hyn yn cynnwys achosion lle nad yw D yn ddinesydd Prydeinig a bod y llofruddiaeth arfaethedig i ddigwydd dramor.
- 3.10 Mae'n ymddangos y gallai troseddau cynorthwyo ac annog rhywun i droseddu gynnwys yr ymddygiad hwn²¹, sy'n golygu bod trosedd cymell yn ddiangen. Dyma pam nad oes trosedd o'r fath yn y Mesur drafft. Serch hynny, dim ond os bydd D yn bwriadu neu'n credu y caiff y trosedd ei gyflawni y bydd troseddau cynorthwyo ac annog rhywun i droseddu'n cael ei gyflawni. Ceir achosion o ysgogi yn erbyn grwpiau, neu gyngor na fwriedir ond iddo gael ei ddilyn dan amgylchiadau penodol, ac efallai nad yw'r rhain wedi'u cynnwys.²²
- 3.11 Felly, argymhellwn y dylai'r statud newydd gynnwys fersiwn wedi'i diweddarau o'r trosedd cymell.

¹⁹ Ar hyn o bryd, y drosedd hwyaf ar gyfer trosedd dwys a 20 yw 7 mlynedd; ond mae hyn yr un fath â'r ddedfryd yr ydym yn ei chynnig ar gyfer y ffurf sylfaenol ar drosedd cymal 2.

²⁰ Deddf Trosedd Difrifol 2015, a 76; heb ei chychwyn eto.

²¹ Deddf Troseddau Difrifol 2007, aa 44 a 45.

²² Un enghraifft yw *El-Faisal* [2004] EWCA Crim 456, lle y cyhuddwyd D o gymell llofruddio "Hindwiaid, Iddewon a'r rhai anghred".

Bygythiadau i ladd

- 3.12 Mae Deddf 1861 yn cynnwys trosedd bygythiad i ladd naill ai'r gwrandäwr neu rywun arall. Mae'r Mesur drafft yn cynnwys trosedd bygythiad i ladd neu achosi anaf difrifol.
- 3.13 Rydym yn argymhell y dylai'r statud newydd gynnwys trosedd ar hyd y llinellau hyn, ac y dylai hyn hefyd gynnwys bygythiadau i dreisio'n rhywiol. Dylid ei gwneud yn glir bod y trosedd yn cynnwys achosion lle mae'r bygythiad yn amodol: "gwna hyn, neu fe ladda'i di".

TROSEDDAU ACHOSI PERYGL

- 3.14 Mewn ambell wlad (Ffrainc a rhai o daleithiau America ac Awstralia) mae'n drosedd ymddwyn yn fyrbwyll gan adael rhywun yn agored i'r perygl o gael anaf. Yn yr adroddiad cwmpasu a'r adroddiad llawn, rydym yn trafod y posibilrwydd o greu trosedd tebyg, ond wedi penderfynu yn erbyn hyn ar ôl cael canlyniadau'r ymgynghoriad.
- 3.15 Mae'n bosibl cyfiawnhau cael troseddau achosi perygl pan fydd y perygl hwnnw'n codi wrth i bobl ddewis cymryd rhan mewn gweithgareddau sydd yn eu hanfod yn beryglus. Dyma pam mae angen troseddau gyrru'n beryglus a rhai sy'n ymwneud â defnyddio arfau tân.

Troseddau gwenwyno

- 3.16 Mae Deddf 1861 yn cynnwys un trosedd sy'n ymwneud â gweinyddu sylwedd syfrdanu er mwyn cyflawni trosedd arall,²³ un trosedd sy'n ymwneud â gweinyddu gwenwyn neu sylwedd gwenwynig i beryglu bywyd neu achosi niwed corfforol difrifol²⁴ ac un trosedd o weinyddu gwenwyn neu sylwedd gwenwynig gyda'r bwriad o achosi trallod neu gythruddo.²⁵
- 3.17 Yn y Mesur drafft, mae'r prif droseddau sy'n ymwneud ag anafiadau o dan gymalau 1 i 3 yn cynnwys achosi anaf drwy ddulliau cemegol yn ogystal ag mewn unrhyw ffordd arall. Mae hefyd yn cynnwys un trosedd sy'n ymwneud â gweinyddu'n ymwybodol neu'n fyrbwyll sylwedd sy'n gallu achosi anaf: at ddibenion y trosedd hwn, nid yw'n berthnasol a achoswyd anaf neu beidio mewn gwirionedd. Rydym yn argymhell y dylai'r statud newydd gynnwys y trosedd hwn, ac nid ydym yn credu bod angen troseddau eraill i ddisodli'r rheini yr ydym yn argymhell eu diddymu.

Ffrwydron

- 3.18 Mae Deddf 1861 yn cynnwys troseddau sy'n ymwneud ag:

(1) achosi niwed corfforol difrifol drwy ffrwydrad;²⁶

²³ OAPA 1861, a 22.

²⁴ OAPA 1861, a 23.

²⁵ OAPA 1861, a 24.

²⁶ OAPA 1861, a 28.

- (2) ffrwydro neu anfon sylweddau gyda'r bwriad o wneud niwed corfforol difrifol;²⁷
- (3) lleoli neu daflu ffrwydron gyda'r bwriad o anafu;²⁸ a
- (4) meddu ar ffrwydron neu eu gwneud gyda'r bwriad o gyflawni trosedd.²⁹

3.19 Mae'r Mesur drafft yn argymhell rhoi dau drosedd yn lle'r tri cyntaf o'r rhain

- (1) defnyddio sylweddau peryglus neu ffrwydrol gan fwriadu creu anaf difrifol neu fod yn fyrbwyll ynghylch hynny, a
- (2) defnyddio sylweddau peryglus neu ffrwydrol gan fwriadu creu anaf neu fod yn fyrbwyll ynghylch hynny.

fel sy'n wir am y troseddau a argymhellir sy'n ymwneud â gwenwyno, mae'n amherthnasol a achoswyd anaf mewn gwirionedd.

3.20 Nid oes dim i ddisodli'r pedwerydd trosedd, ond mae'r ymddygiad hwn wedi'i gynnwys yn adrannau 3 a 4 o Ddeddf Sylweddau Ffrwydrol 1883, sydd yn eu tro'n cynnwys:

- (1) gwneud neu feddu ar ffrwydron gyda'r bwriad o beryglu bywyd neu achosi niwed difrifol i eiddo;³⁰ a
- (2) gwneud neu feddu ar ffrwydron dan amgylchiadau amheus neu heb bwrpas cyfreithlon.³¹

3.21 Rydym yn argymhell y dylai'r statud newydd gynnwys y ddau drosedd sy'n ymwneud â ffrwydron sydd yn y Mesur drafft.

Rheilffyrdd

3.22 Ar hyn o bryd, ceir troseddau sy'n ymwneud ag:

- (1) ymyrryd â'r rheilffyrdd (megis drwy roi rhwystrau ar y cledrau, tynnu cledrau neu drawstiau, ymyrryd â phwyntiau neu arwyddion) gyda'r bwriad o beryglu diogelwch unrhyw un sy'n teithio ar y rheilffordd neu sydd arno;³²
- (2) taflu pethau at drên gan fwriadu peryglu diogelwch rhywun sydd ar y trên;³³ a

²⁷ OAPA 1861, a 29.

²⁸ OAPA 1861, a 30.

²⁹ OAPA 1861, a 64.

³⁰ Dedfryd hwyaf: oes.

³¹ Dedfryd hwyaf: 14 blynedd

³² OAPA 1861, a 32; dedfryd hwyaf: oes.

³³ OAPA 1861, a 33; dedfryd hwyaf: oes.

- (3) peryglu diogelwch rhywun ar reilffordd drwy unrhyw weithred anghyfreithlon neu anwaith bwriadol.³⁴

Mae'r Mesur drafft yn disodli'r rhain i gyd ag un trosedd sy'n ymwneud ag achosi perygl ar y rheilffyrdd, sy'n fersiwn estynedig o'r trosedd o dan adran 34 o Ddeddf 1861.

- 3.23 Rydym yn argymhell y dylai'r statud newydd gynnwys un trosedd, sef achosi perygl ar reilffyrdd, fel yn y Mesur drafft. Ac ystyried bod y ddau drosedd arall yn cael eu diddymu, credwn mai 2 flynedd ddylai'r dedfryd hwyaf fod ar gyfer y trosedd hwn. O'i gymharu â'r trosedd gwenwyno newydd, a'r trosedd achosi anaf yn fwriadol neu'n fyrbwyll, byddai 5 mlynedd yn addas ar gyfer y ddedfryd hwyaf.

TROSEDDAU ERAILL

- 3.24 Mae Deddf 1861 yn cynnwys troseddau sy'n ymwneud a:

- (1) rhwystro rhywun rhag dianc o longddrylliad;³⁵
- (2) ceisio tagu rhywun er mwyn cyflawni trosedd ditiadwy;³⁶
- (3) peidio â rhoi bwyd i brentisiaid neu weision;³⁷
- (4) gadael plant yn agored i berygl;³⁸
- (5) gosod gwn sbring, magl dynion neu beiriant arall sydd wedi'i fwriadu i ddistrywio bwyd neu achosi niwed corfforol difrifol; a
- (6) achosi niwed drwy yrru'n wyllt.³⁹

- 3.25 O blith y rhain, rydym yn argymhell diddymu troseddau rhwystro rhywun rhag dianc o longddrylliad, ceisio tagu a pheidio â darparu bwyd i weision neu brentisiaid. Nid yw'r troseddau sy'n ymwneud â llongddrylliadau a gweision a phrentisiaid byth yn digwydd mewn gwirionedd; cyhuddir pobl o geisio tagu weithiau ond mae'r achosion hyn wedi'u cynnwys o dan droseddau eraill. Mae'r tri throsedd arall digwydd ar brydiau, a dylai'r rhain aros yn Neddf 1861.

- 3.26 Mae Deddf 1861 hefyd yn cynnwys troseddau deuwriaeth/dwywreiciaeth⁴⁰ ymgais i erthylu,⁴¹ caffael cyffuriau i erthylu⁴² a chelu genedigaeth.⁴³ Mae'r rhain y tu allan i gwmpas y prosiect ac nid ydym yn cynnig dim argymhellion yn eu cylch.

³⁴ OAPA 1861, a 34; dedfryd hwyaf: 2 flynedd.

³⁵ OAPA 1861, a 17.

³⁶ OAPA 1861, a 21.

³⁷ OAPA 1861, a 26.

³⁸ OAPA 1861, a 27.

³⁹ OAPA 1861, a 35.

⁴⁰ OAPA 1861, a 57.

⁴¹ OAPA 1861, a 58.

⁴² OAPA 1861, a 59.

⁴³ OAPA 1861, a 60.

TABL TROSEDDAU PRESENNOL A THROSEDDAU NEWYDD

Troseddau presennol			Troseddau newydd		
Adran (o OAPA 1861 oni ddywedir fel arall)	Disgrifiad	Modd rhoi ar brawf a dedfrydu	Cymal (o Fesur drafft 1998 oni ddywedir fel arall)	Disgrifiad	Modd rhoi ar brawf a dedfrydu
18	Clwyfo neu achosi niwed corfforol difrifol, gyda'r bwriad o wneud niwed corfforol difrifol	Llys y Goron; oes	1	Achosi anaf difrifol yn fwriadol <i>Sylwer: nid yw clwyfo wedi'i gynnwys onid yw'r clwyf yn anaf difrifol.</i>	Llys y Goron; oes
20	Clwyfo maleisus neu achosi niwed corfforol difrifol <i>Sylwer: rhaid i'r diffynnydd fwriadu rhyw niwed neu fod yn fyrbwyll yn ei gylch; nid oes rhaid i hyn olygu clwyf neu niwed corfforol difrifol</i>	Neillffordd; 5 mlynedd	2	Achosi anaf difrifol yn fyrbwyll <i>Nodyn: Rhaid i D fod yn fyrbwyll ynghylch risg o anaf difrifol; nid yw clwyfo wedi'i gynnwys oni fydd y clwyf yn anaf difrifol.</i>	Neillffordd; 7 mlynedd
			3	Achosi anaf yn fwriadol neu'n fyrbwyll (boed drwy ymosod neu beidio) <i>Sylwer: Rhaid i D fwriadu rhyw anaf neu fod yn fyrbwyll yn ei gylch.</i>	Neillffordd; 5 mlynedd
47	Ymosod sy'n achosi gwir niwed corfforol <i>Sylwer: mae hyn yn cynnwys pob math o ymosod neu guro sydd mewn gwirionedd yn achosi anaf, ni waeth a oedd y diffynnydd wedi bwriadu'r anaf neu wedi bod yn fyrbwyll yn ei gylch neu beidio.</i>	Neillffordd; 5 mlynedd	argymhellir yn yr adroddiad ond nid ym Mesur drafft 1998.	Ymosod dwys <i>Sylwer: mae hyn yn cynnwys pob math o ymosod corfforol neu fygythiad o ymosod sydd mewn gwirionedd yn achosi anaf, ni waeth a oedd y diffynnydd wedi bwriadu'r anaf neu wedi bod yn fyrbwyll yn ei gylch neu beidio.</i>	Ynadon; 12 mis
Cyfraith gyffredin	Curo <i>Sylwer: mae hyn yn golygu gwir drais</i>	Llys ynadon; 6 mis			

Troseddau presennol			Troseddau newydd		
Adran (o OAPA 1861 oni ddywedir fel arall)	Disgrifiad	Modd rhoi ar brawf a dedfrydu	Cymal (o Fesur drafft 1998 oni ddywedir fel arall)	Disgrifiad	Modd rhoi ar brawf a dedfrydu
	<i>corfforol, gan gynnwys unrhyw gyffwrdd anghyfreithlon, pa mor fach bynnag. Ar hyn o bryd, defnyddir y trosedd hwn weithiau ar gyfer achosion o anafiadau llai difrifol.</i>		4 (wedi'i addasu)	Ymosod corfforol <i>Sylwer: ni ddylid defnyddio hwn ar gyfer achosion lle mae'r anaf yn llai difrifol, oherwydd gellir dwyn cyhuddiad o ymosod dwys ar gyfer y rhain.</i>	Ynadon; 6 mis
Cyfraith gyffredin	Ymosod <i>Sylwer: mae hyn yn golygu achosi i rywun deimlo'i fod yn dioddef trais corfforol, yn yr un ystyr ag ar gyfer curo uchod.</i>	Ynadon; 6 mis	4 (wedi'i addasu)	Bygwth ymosod	Ynadon; 6 mis
Deddf yr Heddlu 1996, a 89(1)	Ymosod ar gwnstabl wrth iddo gyflawni ei ddyletswydd. <i>Sylwer: nid oes angen i'r diffynnydd wybod nac amau mai un o swyddogion yr heddlu yw'r dioddefwr</i>	Ynadon; 6 mis	5 (wedi'i addasu)	Ymosod ar gwnstabl wrth iddo gyflawni ei ddyletswydd. <i>Sylwer: rhaid i'r diffynnydd wybod mai un o swyddogion yr heddlu yw'r dioddefwr, neu fod yn fyrbwyll ynghylch a yw'r dioddefwr yn un o swyddogion yr heddlu neu beidio</i>	Ynadon; 12 mis
OAPA 1861, a 18	Clwyfo neu achosi niwed corfforol difrifol gyda'r bwriad o wrthsefyll neu atal rhywun rhag cael ei ddal neu ei gaethiwo'n gyfreithlon;	Llys y Goron; oes	6	Achosi niwed difrifol gan fwriadu gwrthsefyll, atal neu derfynu arestio neu gaethiwo'n gyfreithlon y person ei hun neu drydydd person	Llys y Goron; heb ei phennu

Troseddau presennol			Troseddau newydd		
Adran (o OAPA 1861 oni ddywedir fel arall)	Disgrifiad	Modd rhoi ar brawf a dedfrydu	Cymal (o Fesur drafft 1998 oni ddywedir fel arall)	Disgrifiad	Modd rhoi ar brawf a dedfrydu
38	Ymosod gyda'r bwriad o wrthsefyll neu atal rhywun rhag cael ei ddal neu ei gaethiwo'n gyfreithlon;	Neillffordd; 2 flynedd	7	Ymosod gan fwriadu gwrthsefyll, atal neu derfynu arestio neu gaethiwo'n gyfreithlon y person ei hun neu drydydd person	Neillffordd; 2 flynedd
37	Ymosod sy'n arwain at daro neu glwyfo ynad neu berson arall wrth iddo gyflawni ei ddyletswydd i warchod llongdrylliad neu unrhyw long mewn trafferthion;	Llys y Goron; 7 mlynedd	Diddymu heb roi dim yn ei le		
36	Rhwystro clerigwr neu ymosod arno wrth iddo gyflawni ei ddyletswyddau;	Neillffordd; 2 flynedd	Diddymu heb roi dim yn ei le		
28	Achosi niwed corfforol difrifol drwy ffrwydrad	Llys y Goron; oes	8	Defnyddio sylweddau peryglus neu ffrwydrol gyda'r bwriad o achosi anaf difrifol neu fod yn fyrbwyll yn ei gylch	Llys y Goron; oes
29	Ffrwydro neu anfon sylweddau gyda'r bwriad o wneud niwed corfforol difrifol;	Llys y Goron; oes			
30	Gosod neu daflu ffrwydron gyda'r bwriad o anafu	Llys y Goron; 14 blynedd	9	Defnyddio sylweddau peryglus neu ffrwydrol gyda'r bwriad neu'r risg o achosi anaf	Llys y Goron; 14 mlynedd
64	Meddu ar ffrwydron neu eu gwneud gyda'r bwriad o gyflawni trosedd.	Llys y Goron; 2 flynedd	Diddymu heb roi dim yn ei le, ond mae'r un ymddygiad eisoes wedi'i gynnwys dan Ddeddf Sylweddau Ffrwydrol 1883, aa 3 a 4.		
16	Bygythiadau i ladd	Llys y Goron; 10 mlynedd	10	Bygwth marwolaeth nau anaf difrifol	Naill ffordd; 10 mlynedd

Troseddau presennol			Troseddau newydd		
Adran (o OAPA 1861 oni ddywedir fel arall)	Disgrifiad	Modd rhoi ar brawf a dedfrydu	Cymal (o Fesur drafft 1998 oni ddywedir fel arall)	Disgrifiad	Modd rhoi ar brawf a dedfrydu
4	Cymell llofruddiaeth	Llys y Goron; oes	argymhellir yn yr adroddiad ond nid yn y Mesur drafft	Annog llofruddiaeth	Llys y Goron; oes
22	Defnyddio sylwedd syfrdanu er mwyn cyflawni trosedd	Llys y Goron; oes	11	Gweinyddu sylwedd a all achosi anaf <i>Sylwer: lle yr achosir anaf, gall troseddau o dan gymalau 1 i 3 hefyd fod yn berthnasol. Ceir trosedd hefyd sy'n ymwneud â defnyddio sylwedd syfrdanu i alluogi gweithgarwch rhywiol, a'r ddedfryd hwyaf ar gyfer hwnnw yw 10 mlynedd: Deddf Troseddau Rhyw 2003, a 61.</i>	Neillffordd; 5 mlynedd
23	Gweinyddu sylwedd gwenwynig i beryglu bywyd neu achosi niwed corfforol difrifol	Llys y Goron; 10 mlynedd			
24	Gweinyddu sylwedd gwenwynig gyda'r bwriad o anafu neu gythruddo	Llys y Goron; 5 mlynedd			
32	Gosod pethau ar gledrau rheilffordd gyda'r bwriad o beryglu teithwyr	Llys y Goron; oes	13	Achos perygl i rywun ar reilffordd	Neillffordd; 2 flynedd yn y Mesur drafft (rydym ni'n awgrymu 5 mlynedd)
33	Taflu pethau at drên gyda'r bwriad o beryglu teithwyr	Llys y Goron; oes			
34	Peryglu teithwyr ar reilffordd	Neillffordd; 2 flynedd			
17	Rhwystro rhywun rhag dianc o longdrylliad	Llys y Goron; oes	Diddymu heb roi dim yn ei le		
21	Ceisio tagu er mwyn cyflawni trosedd	Llys y Goron; oes	Diddymu heb roi dim yn ei le		

Troseddau presennol			Troseddau newydd		
Adran (o OAPA 1861 oni ddywedir fel arall)	Disgrifiad	Modd rhoi ar brawf a dedfrydu	Cymal (o Fesur drafft 1998 oni ddywedir fel arall)	Disgrifiad	Modd rhoi ar brawf a dedfrydu
26	Peidio â rhoi bwyd i brentisiaid neu weision	Neillffordd; 5 mlynedd	Diddymu heb roi dim yn ei le		
27	Gadael plant yn agored i berygl	Neillffordd; 5 mlynedd	Wedi'i gadw yn Neddf 1861		
31	Gosod gynnu sbring, maglau-dynion ac ati	Llys y Goron; 5 mlynedd	Wedi'i gadw yn Neddf 1861		
35	Achosi niwed drwy yrru'n wyllt	Llys y Goron; 2 flynedd	Wedi'i gadw yn Neddf 1861		
57	Deuwriaeth/dwywreiciaeth	Neillffordd; 7 mlynedd	Y tu allan i gwmpas y prosiect; wedi'i gadw yn Neddf 1861		
58	Erthylu anghyfreithlon	Llys y Goron; oes	Y tu allan i gwmpas y prosiect; wedi'i gadw yn Neddf 1861		
59	Caffael cyffuriau ar gyfer erthylu	Llys y Goron; 5 mlynedd			
60	Celu genedigaeth plentyn	Neillffordd; 2 flynedd			